# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidiogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1134(HER) a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ar 26 Mai 2010

**At Helen Mary Jones:**

Rwy’n ysgrifennu atoch yn dilyn fy ymateb ichi yn y cyfarfod llawn ar 12 Mai ynghylch ein cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau ac yn arbennig sut rydym yn lledaenu manteision cynnal digwyddiadau mawr yng Nghymru.

Y Cwpan Ryder, wrth gwrs, yw’r digwyddiad mwyaf y gall Cymru obeithio ei gynnal ac rydym am sicrhau cynifer o fanteision â phosibl drwyddo o ran hyrwyddo popeth arall sydd gennym i’w gynnig i’n hymwelwyr. Bydd Croeso Cymru yn croesawu nifer o newyddiadurwyr teithio yn ystod wythnos y Cwpan Ryder ac oherwydd hynny caiff rhaglen o ymweliadau o amgylch Cymru ei chynnal a fydd yn rhoi llawer o wybodaeth i’r newyddiadurwyr ei defnyddio yn eu herthyglau i’r wasg pan fyddant yn dychwelyd i’w priod wledydd. Mae hyn yn rhan o raglen barhaus o ddigwyddiadau o’r fath sy’n helpu i godi gwerth twristiaeth golff. Mae’n wir i ddweud, fodd bynnag, mai gwylio golff fydd yr unig ddiddordeb i’r rhan fwyaf o’r dorf yn y Cwpan Ryder. Serch hynny, bydd rhai ohonynt yn ymweld â chyrsiau golff eraill yng Nghymru.

Fel mewn digwyddiadau mawr eraill, fel Sioe Frenhinol Cymru a’n Heisteddfodau, bydd gwybodaeth twristiaeth ar gael yn y Cwpan Ryder gan gynnwys yr holl daflenni marchnata ardaloedd. Diolch i’r taflenni ardal a phresenoldeb swyddogion, bydd ymwelwyr yn cael mynediad at ystod o wybodaeth ynghylch llety, gweithgareddau ac atyniadau efallai yr hoffent eu defnyddio tra’u bod yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, gall arweinwyr gael eu cyfeirio at ein canolfannau croeso lle gall staff roi rhagor o fanylion.

Un o brif nodau Croeso Cymru wrth gefnogi digwyddiadau yw creu platfform o ddiddordeb mewn rhywbeth penodol yng Nghymru er mwyn hybu’r cynnyrch ehangach sydd gan Gymru i’w gynnig. Gwneir hyn drwy ystod o weithgareddau marchnata – cysylltiadau cyhoeddus a chyfleoedd marchnata ar-lein heb eithriad a thaflenni gwybodaeth os ydym yn cael gwybod am y digwyddiadau mewn digon o amser i allu argraffu. Yn achos digwyddiadau mawr fel y Cwpan Ryder, defnyddir rhaglen farchnata gynhwysfawr i ledaenu manteision i rannau eraill o Gymru.

Rydym yn hyrwyddo visitwales.co.uk yn gyson fel ffynhonnell rhagor o wybodaeth am Gymru fel cyrchfan twristiaeth ac yn hybu cynnyrch twristiaeth i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn ein cronfa ddata o gynhyrchion sydd i’w gweld ar ein gwefan.

Rwy’n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1149(HER) a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, Mai 2010

**At Nick Bourne:**

Yn y cyfarfod llawn ar 12 Mai 2010, addewais roi’r manylion diweddaraf ichi ynghylch y gweithgareddau sy’n gysylltiedig â Chwpan Ryder 2010 a Gemau Olympaidd Llundain 2012 a manteision hirdymor y digwyddiadau hynny.

Yn achos Cwpan Ryder, sefydlwyd Cronfa Waddol yn 2005 er mwyn ei gwneud yn haws i bobl, na fyddent o reidrwydd yn cael y cyfle fel arall, i chwarae golff. Hyd yma mae dros 20 o brosiectau wedi cael cyllid gwerth £1.3 miliwn bron. Gan fod bron i hanner y prosiectau yn cael eu cynnal yn y Canolbarth neu'r Gogledd, mae'n sicr fod Cwpan Ryder yn dod â manteision i Gymru gyfan.

Yn ogystal â hynny, mae rhagor o ymwelwyr wedi cael eu denu i glybiau ledled Cymru cyn y digwyddiad eleni. Cafwyd 184,000 o ymwelwyr yn 2009, sydd 11% yn uwch na'r nifer yn 2008 ac roedd y gwariant ar ffioedd grîn 15% yn uwch.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymrwymedig i sicrhau cynifer o fanteision â phosibl yn sgil Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 ac mae'r Uned Digwyddiadau Mawr yn cydgysylltu'r ymdrech hon i gefnogi Grŵp Llywio Cymru ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 sydd o dan gadeiryddiaeth Gareth Hall ac yn rhan o Grŵp Cenhedloedd a Rhanbarthau Llundain 2012 y DU gyfan. Mae staff penodol ar gael i ddenu a chynorthwyo timau o wledydd eraill ac annog pobl ledled Cymru i gyfranogi drwy raglen yr Olympiad Diwylliannol a'r Marc Ysbrydoli. Rwyf hefyd yn falch y bydd hyd at 17 o gemau pêl-droed Olympaidd yn cael eu cynnal yn Stadiwm y Mileniwm. Os bydd Pwyllgor Trefnu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain (LOCOG) yn cyrraedd eu targedau o ran tocynnau, bydd y gemau hyn yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr ychwanegol i Gymru ac yn gwella enw a phroffil rhyngwladol y genedl.

Fel enghraifft dda o'r gwaddol, mae'r gwersylloedd hyfforddi cyn gemau yn cynnig y cyfle i godi proffil y gemau yng Nghymru ac felly broffil Cymru ledled y byd drwy gysylltiadau cynaliadwy ym maes chwaraeon, diwylliant a'r economi â'r gwledydd hynny sy'n dod i Gymru. Hyd yma mae timau Paralympaidd Awstralia, Seland Newydd a De Affrica – tua 500 o athletwyr a staff cymorth – wedi penderfynu dod i Gymru i hyfforddi mewn pob math o gampau. Bydd timau Awstralia a De Affrica yn aros yng Nghaerdydd a Chasnewydd tra bydd tîm Seland Newydd yn aros yn Abertawe yn bennaf. Mae'r tair gwlad hon yn frwdfrydig ynghylch datblygu cysylltiadau â Chymru ym maes chwaraeon, addysg a diwylliant.

Yn ogystal â hynny, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi manylion y tîm Olympaidd cyntaf i aros yng Nghymru cyn bo hir yn ogystal â gwersyll ymbaratoi penodol ar gyfer dros 100 o athletwyr a hyfforddwyr o sawl gwlad wahanol.